*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar'**
**Dydd Llun, 18fed Gorffennaf, 2022 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2.** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

**3.** **ADRODDIAD CYFLAWNIAD AC ADNODDAU'R CYNGOR**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**(Tudalennau 15 - 54)**

**4.** **STRATEGAETH RHEOLI RISG**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n amlinellu'r diweddariadau i Strategaeth Rheoli Risg ddrafft y Cyngor.

**(Tudalennau 55 - 74)**

**5.** **STRATEGAETH DDRAFFT RHAGLEN CYMORTH TAI 2022-26**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr - Iechyd, Diogelu a Gwasanaethau Cymuned mewn perthynas â Strategaeth Ddrafft y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26.

**(Tudalennau 75 - 330)**

**6.** **CYNNIG AILDDATBLYGU: HEN GARTREF GOFAL PRESWYL BRONLLWYN**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant mewn perthynas â chynnig ailddatblygu i ddarparu llety gofal arbenigol i bobl ag anableddau dysgu yn hen Gartref Gofal Preswyl Bronllwyn.

**(Tudalennau 331 - 354)**

**7.** **CARTREFI GOFAL PRESWYL I BOBL HŶN**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnig newidiadau dros dro er mwyn ymateb i'r galw presennol a chapasiti cartrefi gofal preswyl y Cyngor i bobl hŷn.

**(Tudalennau 355 - 364)**

**8. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2022**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022.

**(Tudalennau 365 - 640)**

**9. CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg sy'n rhannu gwybodaeth am ddyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG).

**(Tudalennau 641 - 670)**

**10. SWYDDOGION YMGYSYLLTU Â THEULUOEDD - ADOLYGIAD**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mewn perthynas â rhoi cynllun peilot ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar waith yn RhCT, ac amlinellu dau ddewis ar gyfer datblygu'r gwaith yma tra hefyd yn ystyried gwaith ehangach o ran Ymgysylltu â Theuluoedd yn ysgolion RhCT a'r gwaith sy'n mynd rhagddo tuag at Ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned.

**(Tudalennau 671 - 694)**

**11. CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU (YSGOLION YR 21AIN GANRIF GYNT): MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL - Y PROSIECTAU NESAF**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mewn perthynas â Phrosiectau Nesaf a ariennir gan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, Llywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 695 - 768)**

**12. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU - CYFLEOEDD YN NE DDWYRAIN CYMRU**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), i dynnu sylw at gyfleoedd buddsoddi ar gyfer Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru, ac i gynnig trefniadau ar gyfer Cynllun Buddsoddi Rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

**(Tudalennau 769 - 780)**

**13. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol